

AGENDA

Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm

Eitem 1

Cwestiynau Llafar i Brif Weinidog Cymru

Cliciwch [yma](#) i weld y cwestiynau

Eitem 2

Datganiad: Prif Weinidog Cymru ar ddyraniad cyfrifoldebau Ysgrifenyddion Cynulliad

Eitem 3

Datganiad: Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ar Fentrau Iaith ar Cynllun Teuluoedd

Eitem 4

Datganiad Busnes: y Trefnydd

Cliciwch [yma](#) am y Datganiad Busnes Drafft

Eitem 5

Cynnig cyfansawdd o dan Reol Sefydlog 22.25 i gymeradwyo:

NDM965 - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:

1. Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgol gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2002; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgol gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002

Cliciwch [yma](#) i weld y rheoliadau drafft

Cliciwch [yma](#) i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Yn cymeradwyo:

2. Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2002; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002

Cliciwch [yma](#) i weld y rheoliadau drafft

Cliciwch [yma](#) i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Eitem 6

Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 5 2002 ar daliad ychwanegol i Gyngorau Sir Ddinbych a Bro Morgannwg oherwydd gostyngiad yn yr Asesiad Gwario Safonol

NDM966 - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan A88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo *Local Government Finance (Wales) Special Grant Report (No 5) (Wales) 2002* a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror 2002.

Cliciwch [yma](#) i weld y *Local Government Finance (Wales) Special Grant Report (No 5) (Wales) 2002* - Ar gael yn Saesneg yn unig

Eitem 7

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar Ymchwiliad Nantygwyddon

NDM967 - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei werthfawrogiad wrth Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth am gynnal yr ymchwiliad i safle tirlenwi Nantygwyddon, yn nodi argymhellion y Pwyllgor yn yr adroddiad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror, ac yn galw ar yr awdurdodau perthnasol i weithredu argymhellion y Pwyllgor.

Cliciwch [yma](#) i weld yr adroddiad.

Eitem 8

Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru

NDM968 - Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn:

1. Gresynu wrth fethiant Llywodraethau 'Llafur Newydd' y DU a Chymru i ddiogelu a gwella'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru

2. Nodi'r methiant trychinebus i gyflawni'r addewid i leihau amseroedd aros ysbytai yng

Nghymru, ac yn

3. Mynnu bod camau effeithiol yn cael eu cymryd ar bob lefel i ddiwallu anghenion iechyd pobl Cymru.

Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:

Jonathan Morgan (Canol De Cymru): Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
"Nodi methiant y Weinyddiaeth Lafur/Ryddfrydol i godi'n sylweddol nifer y cleifion mewnol sy'n cael eu trin yng Nghymru."

Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

9.05 am ddydd Iau, 28 Chwefror 2002

E P Silk

Clerc y Cynulliad